5.18

# CAN NEWYDD,

SEF *GWIRIONEDDOL HANES,*

AM Y

# MWRDRA CREULON

A WNAETH

***Rees Lewis, o'r Hendre-laes,***

A'R GORPH UN

## JOHN PRICE, Panthoylow,

Pan oeddent ill dau ar SUL yn Bugeila Defaid ar fryn y Darren,

***EBRILL* 23, 1826,**

YMHLWYF LLANAFAN VAWR,

## SWYD FYRCHEINIOG,

YR HWN A

**DDINYDDIWYD YN ABERHONDDU,**

**AWST 14, 1826.**

---

*A Gyfansaddwyd gan D. R. J. MORGAN, Llangamarch.*

---

ABERHONDDU:
Argraphydd gan Priscilla Hughes.

# CAN NEWYDD.

1.

FY ffryndiau mwyn caredig gwreng a bon eddig oll,
Yn fychain ac 'n fawrion, dowch ddynion 'n ddi goll;
Cewch glywed 'n alarus am dro ychrudus wawr,
O fewn i Swydd Fyrcheiniog, 'm hlwy Llanafan fawr.

2.

O fewn ir wlad ar ardal, RHYS LEWIS o'dd 'n byw,
Gan wadu pob cynglorion, gwir weinidogion Duw:
Ond tost fy y canlyniad daeth hwn i ddiwedd drwg,
A marw gadd 'n ddiau, o bounau mawr a gŵg.

3.

Tri chwech o dduddiau Ebril, a phump o gynill gawn,
Gwnad fwrddo'r PRICE Panthoylw, by hyn 'n chwerw iawn;
Nol mynd ill dan i fygeilia, i fryn y Daren draw,
Cyflawno'dd RHYS y weithred, oer leiddred 'n ddifraw.

4.

Nol cwbla hyn o weithred, im gyddiad ffo'dd y dyn,
Rhag ca'l 'u euog farnu, au grogi gan 'ryw un;
Ond Duw eu hyn sy beynydd, ein lluwydd yma thraw,
A dda'th a hyn 'n ddiau, ur golau, ma's o law.

5.

Mab PRICE mewn pur addoliad, rhyw oer nad ddaeth iw fron,
O! 'th dad sy mewn trwm alar, ar ado 'r ddauar hon;
Ac yna 'n syn fe godo'dd, fe chwylio'dd am eu dad,
Nes iddo i ga'l e 'n saledd, 'n gorwedd 'n eu wad.

6.

Eu anwyl fab heb gelu, 'nau gwnu 'n eu gol,
Ond neb all roddi 'r iechyd, na dod ar bywyd nol;
Ac yna 'n syn fe waeddodd, o! boblo'dd dowch 'nghyd,
Fy nhad rowd 'n angeuol, draw yr tragwyddol fyd.

7.

Dâu yno 'r gwuch gymdogion 'n dirion oll yr fan,
Gan geisio am y llofrydd, drwyr g'ledydd y 'mhob man;
Ai gorph a ga'dd eu drosglwydd, oddi yno 'n ddi ble,
Ai blant oedd 'n ymddifa'd, heb dad na mam 'n rhe.

X205212238

8.

Nol paso cwest y Crowner ar gorph y marw ddyn,
RHYS LEWIS am y weithred, a farned gan bob un;
Ond RHYS pen saith diwyrnod er syndod, ddaeth u dre,
Yn glau fe gadd eu gyrchu, u Aberhonddu dre.

9.

Roedd daû o'u blant mi wiria, mewn dalfa 'ny Jal,
Yn cal 'u mynych holi, heb fawr o dyst u ga'l;
Ac yntau gan heddgedwaid, o flan usdusaid daith,
I ga'l u holi 'n bwyllog, au euog o'dd o'r gwaith.

10.

Yseweir WATKINS enwog, fe haudde 'r parch 'n wir,
Am eu dduogelu 'n inion, nghyffion sownd y shir;
Ai gadw gadd e ddiogel o fewn ir fan ar lle,
Nes dauth y Judge iw farnu, 'n llus hal fawr y dre.

11.

Holl fonedd Aberhonddu sy 'n heuddu 'r clod 'n llawn,
Am ddenu 'u fab 'n gynes, nes ca'l 'r hanes iawn;
Gan ddweyd cau fod heb gerydd o's llofrydd oed u dad,
Ac cai e fynd pryd myno, i rodio tre a gwlad.

12.

Nol yddynt fanol holi, nes tynu 'r peth i ben,
Mae daro 'nad 'n enbyd, a rhyw gas 'weydlyd bren;
Ac iddo 'n syn iw helpu, a hyny 'n ddi fraw,
Roi neiset am eu wddwg, ai glumu 'n driau draw.

13.

Nol gorphen hyn o weithred, fy nhad ar gerdded aith,
Rhag ofon caul oddau, 'n ddiau am y gwaith;
Gan ddwedyd wrthyf aros, 'n agos iawn ir fan,
O's gweli di ryw lofrydd, rho 'r newydd trwy bob man.

14.

Du Sadwrn, Awst y pumed, y Judges ddaeth 'r dref,
Y Cownselers ar Grand Jury, ddaynt oll iw farnu ef;
Dydd Gwener y Ddauddegfed, cadd ddod o flan y bar,
I sefyll am eu fywyd, O! ddydd anhyfryd ar.

15.

Nol holi oll o'r tystyon, au ca'l 'n gyson un,
I farnu gadd u farw ar eurau i fab u hyn;

6082

Ond trwm oedd eu dystiolaeth, nol cyfr'aeth bryden gwel.
Mae rhaid o'dd u goll farnu, a hyny 'n ddi gêl.

16.

Y Judge 'n syn addwedau, mewn geurau symyl iawn,
Du llun y collu 'th fywyd, am un ar gloch bryd nawn;
Mae 'n rhaid yt golli 'th fywyd, dan 'r anhyfryd bren,
O!! cais am wir ddyfeirwch, a heddwch brenin nen.

17.

O! flaen Duw rhaid atteb, am dragwyddoldeb mawr,
Nis gallaf ond dy farnu u ado wyneb llawr;
A hyny mewn tang ndef, O!! lofrydd yma clyw,
Gobeithio yn y dywedd cai hedd a ffafor Duw.

18.

Er cymaint oedd eu ddychell, gwnai gymell at y nod,
I farw ar y crogbren, 'n wyth a deugen oed;
Gwnai hoffi pob drygioni, tros eu flynyddau maith,
Nes iddo ddod ir gorden, a gorphen pen eu daith.

19.

O'r Jail fe gadd ddod allan 'n fyan at y pren,
I oddau am y weithred, a'r godd rhwng da'r a nen;
Ar gorden am u wddwg roedd yno olwg syn,
Wel'd dyn trwy wrando 'r gelyn, 'n dod ir terfyn hyn.

20.

Yr hangman cas fyleinig, rho'dd 'n grogedig syth,
Fel byddau 'r enaid hedeg, ir byd a beru byth;
Ng wydd rhyw dorf o boblo'dd, ddaeth yno 'n llu o'd nawr,
Y symyd gadd mewn munud, 'r tragwyddalfyd mawr.

21.

Nol iddo fod 'n hongian o ysbyd gyfan awr,
Ai gorph o'dd ir Doctoriad nol ca'l eu dori lawr;
Gobeithio i fod mewn heddiad acheidwad da'r a nen:
Gael moli 'n dragywydd 'n llonwydd byth Amen.

**DIWEDD.**

J Hughes, Printer, Brecon.